# NEGESEUON AM YMARFER:
# Diogelu Oedolion mewn Cartrefi Gofal a Lleoliadau Byw â Chymorth

Mewn ymateb i sawl Adolygiad Ymarfer Oedolion (APR) yn cynnwys Cartrefi Gofal a Lleoliadau Byw â Chymorth yn rhanbarth Gwent ers 2017, mae'r Negeseuon am Ymarfer hyn yn tynnu sylw at rai themâu allweddol i ymarferwyr. Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan yn dymuno rhannu hyn fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i goladu a lledaenu themâu rydyn ni wedi'u dysgu o Adolygiadau. Gallwch chi weld yr adroddiadau llawn ar gyfer yr Adolygiadau hyn ar: www.gwentsafeguarding.org.uk/cy.

## Ystyried Galluedd Meddyliol

- Dylai ystyried galluedd meddyliol unigolyn gynnwys ei allu i bwyso a mesur goblygiadau ei ddymuniadau yn cael eu cyflawni, e.e. os ydyn nhw am gael newid eu trefniadau gofal, ydyn nhw'n deall goblygiadau'r newidiadau hyn yn llawn?
- Pan mae penderfyniad yn cael ei wneud nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i benderfynu ar lety arfaethedig neu drefniadau gofal, dylai ymarferwyr sicrhau bod y mesurau diogelwch cyfreithiol cywir ar waith.
- Rhaid i Unigolion Cyfrifol a Rheolwyr Cartrefi Gofal a Lleoliadau Byw â Chymorth sicrhau bod eu gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, gan sicrhau bod yr opsiynau lleiaf cyfyngol ar gyfer yr amgylchedd ar waith.

## Ymarferwyr yn Darparu Gofal

- Dylai'r monitro o ddarparu gofal gynnwys adborth gan yr ymarferwyr sy'n darparu'r gofal hwn.
- Mae darparwyr gofal i sicrhau bod gan ymarferwyr sy'n darparu gofal gymwysterau a phrofiad addas i gefnogi'r unigolion y maen nhw'n gofalu amdanynt.
- Mae trefniadau monitro, adolygu ac arolygu yn gwerthuso lefelau a chymwyseddau staffio gofal yn erbyn anghenion gofal a lefel risg pob unigolyn.
- Lle mae prinder staff, rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod asesiad risg a chynllun gweithredu yn erbyn y risgiau hynny ar waith.

## Teuluoedd Preswylwyr

- Dylai Cartrefi Gofal a Lleoliadau Byw â Chymorth ddarparu mynediad hawdd i'w Datganiad o Ddiben a nodi'n glir pwy yw'r Unigolyn Cyfrifol a/neu'r Rheolwr er mwyn rhoi gwybod am bryderon neu gwyno iddo.
- Mae'n allweddol bod cyfathrebu effeithiol â theuluoedd i sicrhau eu bod yn deall y prosesau ac yn ymwybodol bod ganddyn nhw'r hawl i ofyn am adolygiadau o anghenion gofal ar unrhyw adeg.
- Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cydnabod y golled y mae gofalyddion ac aelodau o'r teulu yn ei phrofi wrth bontio o fod yn ofalydd i fod yn eiriolwr dros aelod o'u teulu.

**Polisi Cwympiadau:** Dylai fod gan bob Cartref Gofal Bolisi Cwympiadau yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

## Cynlluniau Gofal, Monitro ac Adolygiadau

- Mae angen cysylltiadau cryf rhwng asesu, trefniadau rheoli risg a chynlluniau gofal. Rhaid diweddaru'r rhain wrth i amgylchiadau neu reoliadau newid.
- Dylai'r gofal sy'n cael ei gomisiynu fod y gofal sy'n cael ei ddarparu.
- Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal unigolion ddarllen y cynllun darparu gwasanaeth, gan fod hyn yn llywio'r gwaith o fonitro trefniadau gofal.
- Dylid cynnal adolygiadau rheolaidd ar gyfer yr holl breswylwyr o fewn yr amserlenni sydd wedi'u pennu.
- Mae monitro'r gofal sy'n cael ei gomisiynu yn nodi newidiadau i'r gofal sy'n cael ei ddarparu.
- Pan mae dirywiad mewn iechyd a lles yn cael ei nodi, dylai cynnal cyfarfod gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol cael ei ystyried.

## Lleoedd wedi'i Ariannu gan y Preswylydd

Pan fydd preswylwyr yn mynd i mewn i gartref gofal ac yn ariannu'r gofal/lleoliad ei hunan, dylai'r Asesiad Cyn Derbyn ystyried unrhyw gyfranogiad proffesiynol blaenorol.

## Asesiadau Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN)

- Mae angen i asesiadau WARRN roi pwys cyfartal ar risgiau corfforol, iechyd meddwl ac ymddygiad. Mae asesiadau risg WARRN yn hyrwyddo golwg gyfannol o anghenion gofal unigolyn.
- Dylai asesiadau risg WARRN flaenoriaethu risgiau trychinebus, hyd yn oed pan fo'r tebygolrwydd y bydd y rhain yn digwydd yn isel.